



Cyngor Bwrdeistref Sirol
MERTHYR TUDFUL
MERTHYR TYDFIL
County Borough Council

PROFFIL LLEOLIAD PROFIAD GWAITH

Adran: Peirianeg a Thraffig

Lleoliad: Canolfan Ddinesig, Merthyr Tudful

Gwybodaeth am yr Adran

Mae'r Adran Beirianeg a Thraffig yn dîm amlddisgyblaethol sy'n gweithredu nifer o swyddogaethau statudol ar ran CBS Merthyr Tudful. Mae gan yr adran gyfrifoldeb eang yn y meysydd canlynol:

- Rheoli strwythurau priffordd gan gynnwys pontydd, pontydd ar gyfer cerddwyr, ffosydd, ffyrdd tanddaearol ar gyfer cerddwyr a waliau cynnal.
- Rheolaeth 4 argae
- Rheolaeth 131 o dipiau gwastraff nad sy'n cael eu defnyddio
- Rheoli datblygiad priffyrdd
- Rheoli Risg Llifogydd a Draenio Tir
- Corff sy'n cymeradwyo draenio cynaliadwy
- Diogelwch Ffyrdd
- Rheoli Traffig

Mae'r adran hefyd yn darparu gwasanaeth cynllunio a chymorth ar gyfer adrannau eraill oddi fewn i'r awdurdod ac felly mae'n gyfrifol am gynllun, goruchwyliaeth safle a rheolaeth prosiect unrhyw gynlluniai sifil, strwythurol, draenio, diogelwch ffyrdd neu draffig.

Crynodeb o'r Rhaglen Profiad Gwaith a Thasgau Posib:

- Cyflwyniad i weithio mewn amrywiaeth o ddisgyblaethau peirianyddol.
- Ennill dealltwriaeth o'r prosesau sydd eu hangen er mwyn cwblhau prosiect peirianeg sifil. Cynnwys astudiaethau dichonoldeb, y broses gynllunio, paratoi dogfennau contractio, goruchwyliaeth safle a rheoli prosiect.
- Deall sut i ddefnyddi Auto Cad a chynhyrchu lluniadau adeiladu technegol.
- Mynychu safleoedd adeiladu er mwyn archwilio.
- Dysgu sut i wneud archwiliadau strwythurol yn cynnwys pontydd, waliau cynnal, tipiau gwastraff ac argaeau.
- Dysgu am gynllun draenio cynaliadwy a modeli.
- Dealltwriaeth o weithdrefnau rheoli traffig a chynllunio cynlluniau diogelwch ffordd.

Meini Prawf hanfodol

- Brwdfrydig ac yn barod i ddysgu
- Diddordeb mewn Peirianeg Sifil/Peirianyddol a Rheoli Traffig.
- Parod i weithio yn yr awyr agored ac mewn swyddfa.